# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

Dyddiad ac Amser

**4.00 y.h., DYDD LLUN, 27AIN MEHEFIN, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni.

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 17 Mehefin 2022)

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

## AELODAETH

**Cynghorwyr Gwynedd**

**Dafydd Davies**
**John Brynmor Hughes**
**Gareth Tudor Jones**
**Gareth Williams**
**Gruffydd Williams**

**Eraill**

**Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.**

**Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd**

**Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol,**
**Cyfoeth Naturiol Cymru,**
**Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,**
**Cyfeillion Llŷn,**
**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,**
**Undeb Amaethwyr Cymru,**
**Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,**
**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,**
**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,**
**Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.**

# R H A G L E N


## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2022/23.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2022/23.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION — 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022, fel rhai cywir.

## 7. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE — 10 - 13

Bleddyn Jones, Swyddog AHNE i gyflwyno gwybodaeth am y Gynllun Rheoli'r AHNE.

## 8. AELODAETH CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL AHNE LLŶN — 14 - 16

Bleddyn Jones, Swyddog AHNE i roi adroddiad ar Aelodaeth y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn.

## 9. CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY — 17

Wyn Williams, Rheolwr Cefn Gwlad i roi adroddiad ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy.

## 10. Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY — 18 - 19

Morus Llwyd Dafydd, Swyddog Prosiect AHNE i roi diweddariad i aelodau ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, ac i ethol aelodau newydd i'r Panel Grantiau.

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 16/03/2022

**Yn bresennol**:

Cyng. Gruffydd Williams (Cadeirydd)

**Aelodau:** Y Cynghorydd Gareth Williams, Eirian Allport (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr), Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Jina Gwyrfai (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), Morgan Jones-Parry (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor), T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog), Molly Lovatt (Cyfoeth Naturiol Cymru), Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog) a Wenda Williams (Cyngor Cymuned Aberdaron).

**Swyddogion:** Bleddyn P. Jones (Swyddog Gwasanaeth AHNE), Morus Llwyd Dafydd (Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Presennol ar gyfer eitem 5:** Ann Williams (Swyddog Bioamrywiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Anwen J. Davies, John Brynmor Hughes, Aled Wyn Jones ac Angela Russell (Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd) ynghyd ag Andrew Davidson (Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd), Gillian Walker (Cyfeillion Llŷn) ac Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2021, fel rhai cywir.

Gofynnwyd am ddiweddariad ynglŷn â'r penderfyniad i'r Swyddog Gwasanaeth AHNE drefnu cyfarfod rhithiol efo'r Cynghorau Cymuned a Thref o fewn yr AHNE i ddarparu mwy o wybodaeth am gais yr IDA i ddynodi statws Parc Awyr Dywyll i'r ardal.
Adroddwyd fod y Swyddog AHNE wedi anfon e-bost at y Cynghorau Cymuned a Thref i ddarparu gwybodaeth bellach ac am gysylltu dros yr wythnosau nesaf i drefnu'r cyfarfod; gobeithir gallu ei drefnu at ddiwedd Ebrill neu fis Mai.

**5. CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR**

Croesawyd y Swyddog Bioamrywiaeth Ann Williams i'r cyfarfod. Cyflwynwyd yr adroddiad ble nodwyd fod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn drobwynt ar gyfer cydnabod yr argyfwng natur a chynyddu camau gweithredu.

Darparwyd cefndir ar y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Genedlaethol sy'n manylu ar sut y dylai pob ardal fynd i'r afael ag adfer natur a chynhyrchu Cynllun Gweithredu eu hunain. Eglurwyd mai'r Swyddog Bioamrywiaeth fydd yn arwain ar y cynllun hwn fydd yn gynllun ar y cyd rhwng Gwynedd a Llŷn. Bwriad y cynllun fydd mynd i'r afael â'r chwe amcan cenedlaethol tra hefyd yn cyfarch heriau, pryderon a'r gofynion amgylcheddol yn lleol.

Cydnabyddwyd fod yr amgylchedd yn bwysig ofnadwy i drigolion Gwynedd a Llŷn; bydd y cynllun yn sicrhau fod y cymunedau hyn yn gallu parhau i elwa a mwynhau byd natur. Fydd y ddogfen a'i amcanion yn cael ei anelu at amrywiaeth eang o bobol. Bwriedir i'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwynedd a Llŷn fod yn ddogfen bolisi statudol efo fydd â phedwar rhan.

Adroddwyd y bydd ymgynghoriadau yn cael eu cynnal cyn yr Haf fel rhan o broses creu'r ddogfen; bydd y Cydbwyllgor hwn yn cael eu cynnwys yn y sesiynau ymgynghori hyn. Nodwyd yn y cyfamser fod drafft o ran gyntaf y Cynllun Gweithredu wedi ei baratoi, gofynnwyd am adborth a sylwadau'r Cydbwyllgor ar y drafft hwn. Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn ar sut i gyflwyno sylwadau a bydd y Swyddog Bioamrywiaeth yn anfon y drafft i aelodau'r Cydbwyllgor. Yn ogystal, byddai'r Swyddog Bioamrywiaeth yn gwerthfawrogi pe bai'r Cydbwyllgor yn cymryd rhan a chyfrannu yn yr ymgynghoriadau cyn iddynt fynd ati i ffurfio gweddill y ddogfen.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Gofynnwyd am eglurhad pellach ynglŷn â pha ran o'r ddogfen fydd yn destun i'r ymgynghoriad.
- Holiwyd beth fydd yn digwydd ar ôl i'r ddogfen gael ei chynhyrchu a pwy fydd yn gweithredu cynnwys y ddogfen.
- Cwestiynwyd pam fod y Cydbwyllgor heb gael copi o gynllun drafft rhan un ymlaen llaw. Pryderwyd nad yw aelodau'r Cydbwyllgor yn ymwybodol beth fydd cynnwys y drafft hwn.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Y bydd yr ymgynghoriadau ynghylch ffurfio ail a trydedd rhan y cynllun fydd yn amlygu sut gall y boblogaeth gyffredinol helpu adferiad byd natur yn ogystal â'r camau gweithredu a'r blaenoriaethau lleol. Rhain fydd rhannau pwysicaf y cynllun ac yn destun i'r ymgynghoriadau ble bydd cyfle i gyfrannu. .
- Nodwyd mai cefndir y cynllun yn unig oedd rhan un sydd wedi ei baratoi ar ffurf drafft ble gofynnwyd am sylwadau.
- Bod bwriad i'r ddogfen fod yn ddogfen fyw ble gellir ychwanegu ati. Ychwanegwyd fod Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu adfer natur a bioamrywiaeth dros y blynyddoedd diwethaf, golyga hyn fod cronfeydd o arian yn dod ar gael yn fwy aml. Eglurwyd y bydd y ddogfen ar gael pe bai prosiectau eraill eisiau cyfeirio at y cynllun a'i ddefnyddio fel adnodd i gefnogi ceisiadau am arian.
- Ychwanegwyd y bydd y cynllun hwn yn clymu fyny efo cynllun rheoli'r AHNE; bydd y ddau gynllun yn cyd-redeg ac yn ffynonellau i ddenu cyllid er mwyn gweithredu prosiectau.

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn y wybodaeth am y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a dderbyniwyd gan y Swyddog Bioamrywiaeth.**

## 6. PROSIECTAU CYFALAF AHNE LLŶN

Darparwyd gwybodaeth am brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn gan roi diweddariad ar Brosiectau Cyfalaf TCLC ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2021/22). Nodwyd y bydd mwy o wybodaeth am brosiectau AHNE Llŷn dros y flwyddyn ddiwethaf i'w weld yn y rhifyn diweddaraf o Lygaid Llŷn fydd ar gael diwedd mis Ebrill. Adroddwyd fod y prosiect Atgyweirio Trac Porth Meudwy wedi ei gwblhau a gwaith bron a gorffen ar y tri phrosiect arall.

Nodwyd nad oes cadarnhad wedi ei dderbyn hyd yn hyn am gyfanswm y grant yn y dyfodol na'r nifer o flynyddoedd; adroddwyd fod siawns y bydd dros gyfnod o dair blynedd. Cadarnhawyd y bydd y themâu ar gyfer y prosiectau cyfalaf yn parhau fel y flwyddyn gyfredol.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion â ganlyn gan aelodau:-

- Holwyd erbyn pryd rhaid i'r arian gael ei wario ar brosiectau 2021/22. Roedd y gwaith ar y prosiect o adnewyddu toiledau Lôn Gam, Nefyn ychydig ar ôl yr amserlen wreiddiol oherwydd y tirlithriad diweddar.
- Cwestiynwyd os yw'r themâu Twristiaeth Gynaliadwy yn cyfeirio at y llwybrau troed ac os yw'r Swyddog AHNE yn rhagweld y bydd ceisiadau pellach dan y themâu yma'r flwyddyn nesaf.
- Awgrymwyd y gall y themâu Twristiaeth Gynaliadwy gyfeirio at beilot prosiect i dreialu rhywbeth newydd fydd yn cael defnydd gan dwristiaid.

Mewn ymateb nodwyd:

- Bod estyniad wedi ei dderbyn tan ddiwedd mis Ebrill neu ddechrau Mai 2022 pe bai rhaid ar gyfer gwario arian y grant blwyddyn ariannol 2021/22.
- Nad yw'r Swyddog Gwasanaeth AHNE yn sicr os bydd gymaint o bwyslais ar grantiau i wella llwybrau troed y flwyddyn nesaf o'r gronfa hon. Ychwanegwyd fod grant arall ar gael i wella'r llwybrau, roedd awydd i'r grant hwnnw gael ei ddefnyddio yn hytrach. Eglurwyd fod y themâu Twristiaeth Gynaliadwy yn ymdrin â phrosiectau eang e.e. gwella cyfleusterau i ymwelwyr fel toiledau cyhoeddus.
- Fod y themâu yn weddol hyblyg a bod arian ar gael i brosiectau eraill o dan themâu tebyg i'r rhai a nodwyd.

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad ar Brosiectau Cyfalaf AHNE Llŷn.**

## 7. AELODAETH Y CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL

Darparwyd gwybodaeth am aelodaeth y Cydbwyllgor Ymgynghorol a'r trefniadau sydd ar y gweill yn unol â Chyfansoddiad y Cydbwyllgor i newid Aelodau Cyngor Gwynedd. Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol sydd i'w gweld yn yr adroddiad gan gynnwys yr adolygiad ffiniau.

Cymerwyd y cyfle i ddiolch i Aelodau am yr amser a'r ymdrech sydd wedi ei roi i gefnogi'r AHNE dros y pum mlynedd diwethaf. Adroddwyd y bydd tymor rhai yn dod i ben a bydd gwahoddiad i Gynghorwr Sir o ardaloedd eraill o fewn yr AHNE i fynychu'r Cydbwyllgor yn dilyn yr etholiad. Soniwyd hefyd am y sefydliadu eraill sydd â lle ar y Cydbwyllgor ymgynghorol, ni fydd newid yma.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Tynnwyd sylw fod rhai Cynghorau Cymuned / Tref ddim yn anfon cynrychiolydd i'r cyfarfodydd.
- Holiwyd os oedd modd newid y drefn o enwebu Aelodau o wardiau penodol i eistedd ar y Cydbwyllgor am y cyfnod nesaf ac yn hytrach holi pa Aelodau sydd eisiau bod yn rhan o'r Cydbwyllgor ac efo diddordeb mynychu.
- Holiwyd ynglŷn â'r posibilrwydd o dderbyn data ar bwy sydd wedi bod yn mynychu cyfarfodydd y Cydbwyllgor Ymgynghorol. Ychwanegwyd ei bod yn bwysig fod y cynrychiolwyr yn mynychu a bod cyswllt yn cael ei wneud efo'r sawl sydd heb fod yn mynychu ers tro.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Na fydd yr awgrym o wahodd Aelodau sydd efo diddordeb i fynychu yn bosib. Nodwyd fod barn gyfreithiol wedi ei dderbyn yn y gorffennol oedd yn nodi nad oedd hyn yn bosib oherwydd y Cyfansoddiad a materion ynghylch cydbwysedd gwleidyddol.
- Na fydd yn bosib newid y cyfansoddiad fel bod Cynghorwyr yr 8 ward o fewn yr AHNE (sydd wedi lleihau o 11 yn dilyn yr adolygiad ffiniau) yn derbyn gwahoddiad. Credwyd y bydd hyn yn arwain at ormod o bwyslais ar Gyngor Gwynedd o fewn y Cydbwyllgor yn ogystal â materion Cyfansoddiadol fyddai yn arbed hyn.
- Y byddai'n bosib darparu gwybodaeth ar bresenoldeb holl aelodau'r Cydbwyllgor erbyn y cyfarfod nesaf.
- Bod y Swyddog Gwasanaeth AHNE yn mynd i lythyru'r Sefydliadau a Mudiadau sydd â lle ar y Cydbwyllgor i adael iddyn nhw wybod am y tymor newydd ac i geisio cael cynrychiolwyr i lenwi seddi gwag neu pan nad oes neb wedi mynychu ers amser.

**PENDERFYNIAD**

**a) Derbyn yr adroddiad ar Aelodaeth y Cydbwyllgor Ymgynghorol a'r trefniadau sydd ar y gweill i newid Aelodau Cyngor Gwynedd.**

**b) Cytunwyd i'r Swyddog AHNE Llŷn ddarparu data ar bresenoldeb holl aelodau'r Cydbwyllgor yn y cyfarfod nesaf.**

## 8. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Tywyswyd y Cydbwyllgor drwy Adroddiad y Swyddog AHNE oedd yn nodi bod angen adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE bob pum mlynedd. Nodwyd fod y Cynllun Rheoli presennol oedd yn cael ei weithredu o 2015-2020 bellach wedi ei ddyddio a dylai adolygiad wedi cael ei gynnal eisoes. Eglurwyd bod amryw o resymau wedi amharu ar yr amserlen e.e. y pandemig a materion capasiti.

Adroddwyd bod ychydig o waith cefndirol wedi ei gwblhau a bod bwriad i ddod ag adroddiad gerbron y cyfarfod nesaf o'r Cydbwyllgor gyda mwy o wybodaeth a thaflen amser ar gyfer adolygu'r Cynllun Rheoli mor fuan â phosib.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Soniwyd am yr adroddiadau sydd wedi eu darparu gan gwmnïau allanol a holwyd os oes posib eu rhannu efo aelodau'r cydbwyllgor. Nododd y Swyddog AHNE fod yr adroddiadau hyn yn Saesneg ar hyn o bryd ond gallai drefnu i'w cyfieithu a'u dosbarthu
- Gofynnwyd â oes modd cryfhau'r polisïau sy'n gwarchod yr AHNE a'r adeiladau traddodiadol sydd o fewn y ffin wrth adolygu'r Cynllun.
- Mynegwyd pryder am y cyfnod adolygu gan nodi fod y cyfnod yn fyrrach y tro hwn o'i gymharu â'r cynllun blaenorol a chwestiynwyd sut y bydd hyn yn gweithio.

- Nodwyd fod llawer o adolygiadau ac ymgynghoriadau wedi eu cynnal yn ddiweddar ynglŷn â thai a mynegwyd y dylem fod yn barod i fedru gweithredu yn sydyn fel y gallwn gynorthwyo a chefnogi unrhyw gynlluniau pe bai newidiadau yn deillio o'r Llywodraeth.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Bydd yr adolygiad o'r Cynllun rheoli yn rhoi cyfle i ail edrych ar y polisïau a chyfle i weld os oes angen eu haddasu a'u diweddaru.  Nodwyd fod canllawiau gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru y bydd angen eu dilyn yn fras a bod angen dilyn y strwythur presennol i ryw raddau. Ni ellir newid y cynllun yn llwyr ond yn sicr mae lle i addasu pe bai angen.
- Fod gobaith gall llawer o waith gael ei gwblhau ar y Cynllun mewn blwyddyn. Gobeithir gallu adolygu'r cynllun yn gynt na'r tair blynedd oedd wedi ei gymryd yn y cyfnod diwethaf. Nodwyd ei bod yn anodd rhagdybio pryd fydd y cynllun wedi ei gwblhau yn derfynol am fod llawer o ystyriaethau eraill e.e. dogfennau a chynnwys polisïau cynllunio Cenedlaethol a'r cynllun datblygu lleol Gwynedd a Môn. Bydd adroddiad arall yn dod gerbron y pwyllgor yn fuan.
- Bod swyddogion yn y broses o gael eu penodi yn yr ardal yma i ymwneud a gwaith ar y Cynllun Peilot Dwyfor; awgrymwyd y gall y Swyddog AHNE gysylltu â nhw i weld os oes yna unrhyw beth fedr y Cydbwyllgor ei wneud i hwyluso eu gwaith.

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn y wybodaeth a nodwyd yn yr adroddiad ar Gynllun Rheoli'r AHNE.**

Ar ddiwedd y cyfarfod nodwyd y bydd Cadeirydd newydd yn cael ei ethol yn y cyfarfod nesaf a chymerwyd y cyfle i ddiolch i Aelodau am eu gwasanaeth ar y Cydbwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 4.05yh a daeth i ben am 4.55yh

____________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mehefin 27ain 2022 |
| **TEITL** | Cynllun Rheoli'r AHNE |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr Wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae paratoi ac adolygu Cynllun Rheoli yn un o gyfrifoldebau Cyngor Gwynedd mewn perthynas â'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol o ganlyniad i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol rôl i'w chwarae yn y broses o baratoi ac adolygu'r Cynllun Rheoli.

1.2 Cyfnod gweithredu y Cynllun Rheoli presennol AHNE Llŷn yw 2015-20 a'r bwriad oedd adolygu'r Cynllun yn ystod 2019/2020. Yn anffodus mae nifer o ffactorau wedi amharu ar yr amserlen yn cynnyws y pandemig, gwaith ar brosiectau eraill a materion capasiti.

## 2.0 Y BROSES ADOLYGU

2.1 Wrth adolygu'r Cynllun bydd angen dilyn canllawiau wedi eu cyhoeddi ar baratoi ac adolygu'r Cynlluniau Rheoli gan Cyngor Cefn Gwlad Cymru rai blynyddoedd yn ôl.

2.2 Hefyd bydd angen cymryd ystyriaeth o wybodaeth ddiweddaraf am nodweddion yr ardal, cynlluniau a strategatehau perthnasol, amcanion cadwraeth, prosiectau lleol ayb.

## 3.0 CYNNYDD HYD YMA

3.1 Fel yr adroddwyd i'r cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor mae peth gwaith cefndirol wedi ei wneud ar gyfer adolygu'r Cynllun Rheoli.

3.2 Hefyd comisiynwyd diweddariad o Adroddiad o Gyflwr yr AHNE. Mae'r adroddiad yma yn cynnwys gwybodaeth am gyflwr gwahanol nodweddion AHNE Llŷn a'r pwysau arnynt. Y bwriad yw cyfiethu'r holl ddogfen hon ond fel cam cychwynnol mae'r Uned wedi cyfieithu y prif ganfyddiadau a'u darparu i aelodau'r Cydbwyllgor. Gwler Atodiad 1.

## 4.0 Y CAMAU NESAF

4.1 Mae'r Uned AHNE yn y broses o baratoi briff ar gyfer comisiynnu Ymgynghorydd i ddiweddaru Cyd-destun y Cynllun. Bydd y gwaith yma yn golygu diweddaru gwybodaeth am gynlluniau, strategaethau, deddfau ayb sy'n berthnasol i Gynllun Rheoli'r AHNE. Anelir i gwblhau'r gwaith yma dros yr Haf/Hydref eleni.

4.2 Yn dilyn y camau yma bydd yr Uned AHNE yn adolygu nodau, amcanion a pholisiau y Cynllun Rheoli presennol ac yn awgrymu diweddaru/ newid rhai agweddau er ymateb i wybodaeth newydd a/neu newid mewn amgylchiadau. Anelir i adrodd yn ôl ar hyn i'r Cydbwyllgor yn chwarter olaf 2022.

4.3 Bwriedir symud ymlaen yn 2023 i ddiweddaru'r Cynllun Gweithredu sydd yn cynnwys manylion am y gwaith yr anelir i'w gwblhau o fewn cyfnod gweithredol y Cynllun. Hefyd bydd angen adolygu'r Asesiad Amgylcheddol a Rhywogaethau sydd ynghlwm â'r Cynllun.

4.4 Yna bydd cyfnod o ymgynghori ar y Cynllun diwygiedig drafft. Byddwn yn cysylltu gyda mudiadau, sefydliadau ac uniogolion trwy whanaol ddulliau i gael eu barn a'u safbwyntiau ar y Cynllun.

4.5 Bydd gan y Cydbwyllgor rôl allweddol yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a phenderfynnu ar newidadau a ffurf terfynnol y Cynllun. Anelir i fabwysiadu'r Cynllun Rheoli diwygiedig cyn diwedd 2023.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn yr wybodaeth.

## ATODIAD 1 – ADRODDIAD O GYFLWR YR AHNE

### Canfyddiadau allweddol

#### Bioamrywiaeth

- Mae un Ardal Cadwraeth Arbennig forol (ACA) newydd wedi'i dynodi'n ffurfiol ers adroddiad 2014 (sy'n cynnwys rhannau o draethlin yr AHNE) gan arwain at gyfanswm o bedair ACA, sydd yn gorchuddio 8.3% o gyfanswm arwynebedd tir yr AHNE.
- Tydi nifer yr Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPAs) a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a'u cwmpas heb ei newid ers 2014, gyda dwy AGA a 22 SoDdGA yn gorchuddio 5.5% a 13.7% o'r AHNE yn y drefn honno.
- Mae Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol Ynys Enlli a'r Eifl (GNG) wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn ffin yr AHNE,yn gorchuddio 0.7% o'r AHNE.
- Mae tair Ardal Adar Pwysig (IBAs) yn gorchuddio 34.1% o'r AHNE.
- Coetir llydanddail yw'r math mwyaf cyffredin o goetir yn yr AHNE (47.7%).
- Mae coedwigoedd gonifferaidd wedi gostwng yn sylweddol o 31.6% ers 2014, gan arwain at gynnydd mawr (o 270.3%) mewn ardaloedd a gategoreiddiwyd fel rhai 'wedi'u cwympo'.

#### Defnydd Tir, Aer a Ansawdd y Dŵr

- Bu cynnydd o 19% yn 2012 mewn tir yn yr AHNE o dan gynhyrchiant amaethyddol ers 2008.
- Roedd gorchudd glaswelltir wedi cynyddu 21% yn 2012 ers 2008, tra bod defnydd tir ar gyfer tyfu cnydau wedi lleihau o 17%.
- Gwelodd ffermydd dofednod (154%) a moch (162%) gynnydd sylweddol yn niferoedd da byw rhwng 2008 a 2012.
- Bu cynnydd hefyd o 10% yn nifer y defaid yn yr AHNE a gostyngiad o 5% yn nifer y gwartheg rhwng 2008 a 2012. Defaid oedd y prif fath o dda byw yn yr AHNE. Roedd arddangosfa Glastir yn cwmpasu tua 6,450 ha o dir yn yr AHNE yn 2021 gyda 40% o'r rhain yn y lefel Sylfaenol a 60% yn lefel Uwch.
- Mae tir comin yn gorchuddio dros 800 ha o fewn yr AHNE ac nid oes newid ers 2012.
- Yn 2016 Pen Llŷn oedd gan y crynodiad isaf o fater gronynnol mân ar draws Cymru.
- Cafodd pob safle dŵr ar draws yr AHNE cymeradwyaeth uchel am ansawdd eu dŵr

#### Amgylchedd Hanesyddol

- Mae 252 o Adeiladau Rhestredig yn yr AHNE (yn dilyn cynnydd net o dri ers 2014); y mwyafrif yn Radd II.
- Nid yw nifer yr Henebion Cofrestredig wedi newid (55), gyda 67.3% o'r cyfnod cyn hanesyddol.
- Mae Plas-yn-Rhiw, sy'n adeilad rhestredig Gradd II, yn parhau i fod yr unig Barc a Gardd Gofrestredig yn yr AHNE.

- Mae naw Ardal Gadwraeth yn yr AHNE sy'n gorchuddio ardal  o 245 ha.

**Pobl a Cymunedau**

- Cyfanswm poblogaeth yr AHNE yw 9,872 (yn ôl amcangyfrifon canol blwyddyn SYG 2019).
- Nodweddir yr AHNE gan boblogaeth sy’n heneiddio, gyda’r gyfran fwyaf o bobl 65 oed a hŷn yn rhan orllewinol yr AHNE a canran uwch o bobl 45-64 yn y rhan ddwyreiniol (yn ôl amcangyfrifon canol blwyddyn SYG 2019).
- Mae’r AHNE wedi gweld gostyngiad bach mewn lefelau amddifadedd ers 2011.

**Twristiaeth a'r Economi Ymwelwyr**

- Mae gwariant ymwelwyr yn yr AHNE wedi cynyddu 48% ers 2011, i £53 miliwn yn 2019.
- Mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu o 8.5% (ychydig o dan 350,000).
- Ymwelwyr sy’n aros mewn llety di-wasanaeth sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn niferoedd, ac maent yn cyfrif am 41% o’r holl ymwelwyr i'r AHNE.
- Mae nifer y dyddiau twristiaid a dreulir yn yr AHNE wedi cynyddu 8.9%.
- Mae nifer cyffredinol y bobl a gyflogir yn y sector twristiaeth wedi cynyddu 14.7% ers 2011 (i gyfanswm o tua 816 o bobl).
- Bu cynnydd yn y niferoedd a gyflogir ym mhob sector (y cynnydd mwyaf yn y sector llety), ar wahân i hamdden a thrafnidiaeth a welodd ostyngiad.

**Datblygiad, llonyddwch a'r Awyr Dywyll**

- Mae 34 safle o fewn yr AHNE hefo trwydded ar gyfer carafanau 'teithiol', gyda dim ond pedwar wedi cael trwydded o fewn y pum mlynedd diwethaf.
- Mae 51 o safleoedd o fewn yr AHNE hefo trwydded ar gyfer carafanau 'statig', gyda dim ond un wedi cael trwydded o fewn yr AHNE yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- Mae’r prosiect Awyr Dywyll a Llygredd Golau yng Nghymru o 2021 yn dangos bod dros 90% o’r AHNE yn profi’r awyr dywyllaf yn genedlaethol, a fod bron i 99% o’r AHNE yn dod o fewn y ddau gategori tywyllaf.
- Llŷn sydd â’r awyr nos dywyllaf o unrhyw AHNE yng Nghymru a’r unig AHNE sydd â chanran uwch o’i harwynebedd o fewn y categori tywyllaf o gymharu â chyfartaledd Cymru.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mehefin 27ain 2022 |
| **TEITL** | Aelodaeth Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **PWRPAS** | Darparu gwybodaeth i aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Yn y cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol fe drafodwyd aelodaeth y Cydbwyllgor. Nodwyd fod trefn yn ei lle i gyfnewid yr aelodau o Gyngor Gwynedd yn dilyn etholiadau lleol. Eglurwyd hefyd fod ad-drefnu ffiniau wardiau yn golygu fod y sefyllfa ychydig mwy cymhleth na'r arfer.

## 2.0 AELODAU CYNGOR GWYNEDD

2.1 Yn dilyn yr Etholiadau felly mae aelodau dros y wardiau canlynol yn derbyn lle ar y Cydbwyllgor:

- Pen draw Llŷn
- Clynnog
- Nefyn
- Morfa Nefyn a Tudweiliog
- Abersoch a Llanengan.

2.2 Yn ogystal bydd y Pencampwr Cefn Gwlad yn dod yn aelod o'r Cydbwyllgor – ond nid oedd yr aelod hynny wedi ei penodi gan Gyngor Gwynedd pan yn paratoi'r adroddiad hwn.

## 3.0 SEDDI GWAG

3.1 Mae rhai seddi gwag ar y Cydbwyllgor, sef:

- Cynrychiolydd y Sector Dwristiaeth
- Cynrychiolydd y Sector Fusnes
- Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Gwledig

## 4.0 PRESENOLDEB

4.1 Yn y cyfarfod diwethaf gofynnwyd am wybodaeth am bresenoldeb mewn cyfarfodydd o’r Cydbwyllgor. Mae gwybodaeth am bresenoldeb ar gyfer y blynyddoedd 2019, 2020, 2021 a 2022 wedi ei gynnwys fel Atodiad 2.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn yr wybodaeth.

## ATODIAD 2 – PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD Y CY

| Aelodau | 11/7/19 | 4/12/19 | 18/11/20 | 23/3/21 | 26/5/21 | 17/11/21 | 16/3/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ward Botwnnog | | x | x | x | x | | x |
| Ward Buan | x | x | x | | | x | |
| Ward Llanengan | x | | x | x | x | x | |
| Ward Llanaelhaearn | x | x | x | x | x | x | |
| Ward Tudweiliog | | | | x | x | | |
| Pencampwr Cefn Gwlad Gwynedd | | | x | x | x | x | |
| Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn | x | | x | | x | | |
| Cyngor Cymuned Llanaelhaearn | x | x | x | | x | x | x |
| Cyngor Cymuned Aberdaron | | | x | | x | x | x |
| Cyngor Cymuned Buan | | | | | | | |
| Cyngor Cymuned Llanengan | | | | | | | |
| Cyngor Cymuned Pistyll | | x | | | | | |
| Cyngor Cymuned Llanbedrog | x | x | x | x | x | x | x |
| Cyngor Cymuned Tudweiliog | x | x | | x | x | | x |
| Cyngor Cymuned Botwnnog | x | x | | | | | |
| Cyngor Cymuned Clynnog Fawr | | x | | | x | | x |
| Cyngor Tref Nefyn | x | x | x | x | x | x | x |
| Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig | x | x | x | x | x | x | x |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | | x | x | x | x | x | x |
| Cyfeillion Llŷn | | | | | | | |
| Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd | | | x | | x | x | |
| Cymdeithas Bysgota Llŷn | | x | | | | | |
| Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr | | | | | | | |
| Undeb Amaethwyr Cymru | | | | | | | |
| Yr Ymddiriedolaeth Cenedlaethol | | | | | x | | |
| Fforwm mynediad Arfon/ Dwyfor | x | | x | x | x | | x |

# Eitem 9

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mehefin 27ain 2022 |
| **TEITL** | Cynllun Gwella Hawliau Tramwy |
| **PWRPAS** | Darparu gwybodaeth i aelodau |
| **AWDUR** | Rheolwr Gwasanaeth Cefn Gwlad |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Dogfen strategol yw'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) sy'n gosod cyfeiriad a blaenoriaethau ar gyfer y gwaith o gynnal a datblygu'r rhwydwaith hawliau tramwy ac asedau mynediad eraill yng Ngwynedd.

1.2 Mae CGHT newydd wedi ei baratoi sy'n adlewyrchu'r newidiadau mewn adnoddau a deddfwriaeth sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r Cynllun gwreiddiol yn 2007. Bydd hefyd yn edrych ar sut gellir cynnal a gwella'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus i gwrdd â dyheadau a disgwyliadau cymunedau lleol a defnyddwyr yn wyneb y pwysau parhaus ar adnoddau a heriau megis newid hinsawdd.

1.3 Mae cyfle i unigolion a chyrff gynnig sylwadau ar y CGHT newydd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus sy'n parhau hyd at y 12fed o Fedi 22. Bydd yr adborth yn gymorth i lunio'r CGHT terfynol fydd yn weithredol hyd at 2028 / 29.

1.4 Gellir gweld y CGHT ar dudalen Dweud eich Dweud ar safle we'r Cyngor, bydd copïau ar gael mewn llyfrgelloedd a Siop Gwynedd (Swyddfeydd y Cyngor). Danfonir y wybodaeth yn uniongyrchol i'r Cynghorau Cymuned a'n prif rhanddeiliad. Anogir pobl i ymateb gan ddefnyddio'r holiaduron sydd wedi eu darparu.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Derbyn yr wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mehefin 27ain 2022 |
| **TEITL** | Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy |
| **PWRPAS** | Diweddariad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy |
| **AWDUR** | Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Dewis aelodau newydd i'r Panel Grantiau |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hon er gwybodaeth, am sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy hyd yma a datblygiadau sydd ar y gweill yn ymwneud â hi.

1.2 Hefyd mae angen dewis aelodau newydd o'r Panel Grantiau.

## 2.0 GWARIANT 2021/22

2.1 Roedd **£100,000** yn y Gronfa ar ddechrau 2021/22 ac fe lwyddwyd i ddyrannu'r cyfan. Mae gwybodaeth am y prosiectau eisoes wedi ei ddarparu.

## 3.0 CYLLIDEB 2022/25

3.1 Yn ddiweddar cafwyd cadarnhad fod **£100,000** yn y Gronfa ar gyfer 2022/23, ag yn wahanol i'r arfer cafwyd hefyd wybod fod cyllid o **£100,000** ar gael ar gyfer 2023/24 a 2024/25. Mae hyn yn rhoi cyfle i brosiectau gael eu hariannu dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd yn hytrach na blwyddyn os oes angen.

3.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi newid ychydig ar Reoliadau'r Gronfa gan roi mwy o bwyslais ar y Ddeddf Llesiant a rhoi blaenoriaeth i brosiectau sydd yn cyd fynd ar themâu Adfer natur, a Dad-garboneiddio.

3.3 Mae'r gwaith o hyrwyddo'r cyfle i ymgeisio am grant o'r Gronfa eisoes wedi dechrau. Anogir yr aelodau i rannu'r wybodaeth am y Gronfa.

## 4.0 AELODAU PANEL GRANTIAU

4.1 Mae'r amser wedi dod i ethol aelodau newydd i'r Panel Grantiau- y panel fydd yn ymgynnull i ymdrin â phenderfynu ar geisiadau grant dros £3,000.

4.2 Yn y gorffennol roedd 8 aelod o'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol wedi eu dewis i fod yn aelodau'r Panel grantiau. Yn dilyn yr arweiniad a roddir yn y Rheoliadau awgrymir yn awr fod 4 aelod oedd yn aelodau blaenorol o'r Panel Grantiau yn parhau a 4 aelod newydd yn cael eu dewis.

4.3 Yn y dyfodol y bwriad yw cyfnewid dau aelod o'r Panel grantiau bob dwy flynedd.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn y wybodaeth uchod ag ethol aelodau newydd i'r Panel Grantiau